OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 8

Monitro ac adolygu

**Monitro ac adolygu**

**44.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu rhaglen fonitro i asesu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau hyn fel modd i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol.

(2) O leiaf bob pedair blynedd, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau hyn fel modd i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac, os yw'n angenrheidiol, eu diwygio.

(3) Wrth gynnal adolygiad o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

(a) y data gwyddonol a thechnegol sydd ar gael, gan gyfeirio'n benodol at y priod gyfraniadau nitrogen sy'n dod o ffynonellau amaethyddol a ffynonellau eraill, a

(b) amodau amgylcheddol rhanbarthol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 44 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(3)**

**Mesurau amgen**

**45.**—(1) Os ceir cynigion ar gyfer cyfres amgen o fesurau i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1) o fewn 18 mis i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a fyddai'r mesurau hynny'n sicrhau'r canlyniadau yn fwy effeithiol na'r mesurau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai cynigion a gyflwynwyd o dan baragraff (1) yn fwy effeithiol i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1), rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o fewn dwy flynedd i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, gan esbonio pa gamau a gymerir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 45 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, RHAN 8.